O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2017 Rhif 285 (Cy. 77)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Hwlffordd, Sir Benfro), Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Ddoc Penfro, Sir Benfro) a Chefnffordd yr A4076 (Hwlffordd i Johnston, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017

Gwnaed	*28 Chwefror 2017*
Yn dod i rym	*6 Mawrth 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40), Cefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (yr A477) a Chefnffordd Hwlffordd – Aberdaugleddau (yr A4076) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar y darnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd o ganlyniad i gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mawrth 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Hwlffordd, Sir Benfro),

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Ddoc Penfro, Sir Benfro) a Chefnffordd yr A4076 (Hwlffordd i Johnston, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" ("*transportation period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 6 Mawrth 2017 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau o gefnffyrdd yr A40, yr A477 a'r A4076 yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Chwefror 2017

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

1. Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Salutation Square, Hwlffordd, Sir Benfro, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol cyfan Cylchfannau Sanclêr, Heol Llanboidy (Hendy-gwyn ar Daf), Blackbridge, Penblewin, Robeston Wathen, Pont Canaston, Scotchwell a Salutation Square.

2. Y darn o gefnffordd yr A477 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Waterloo, Doc Penfro, Sir Benfro, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol cyfan Cylchfannau Cilgeti, Sageston, Caeriw a Waterloo.

3. Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Salutation Square, Hwlffordd hyd at ei chyffordd â Chylchfan Sunnycroft, Johnston, Sir Benfro, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol cyfan Cylchfannau Vine Road, Johnston a Phont Fadlen.